

CI DEFAID

Ti yw'r ffrind cywir, tirion, ti yw clust
Iet y clos yn gyson,
Ti wastad yw'r llygad llon,
Ti yw Gelert y galon.

Idris Reynolds

© llun: Delyth G Morgans Phillips/ © testun Idris Reynolds/Cerddi'r Cof, Dref Wen, 2008

Gelert y Ci Ffyddlon

Myrddin ap Dafydd

Amser maith yn ôl, roedd pob math o anifeiliaid gwylltion i'w cael yn ardal Beddgelert – bleiddiaid, ceirw corniog a moch gwyllt yn eu plith. Byddai'r hen Gymry'n mwynhau hela'r rhain, a doedd Llywelyn Fawr – un o'n tywysogion ni – ddim yn eithriad. Roedd gan Llywelyn lys hela yno. Ar ôl cyfnod prysur o ryfela yn erbyn y Normaniaid, a cheisio cadw trefn ar ei wlad, roedd Llywelyn wrth ei fodd yn aros yn ei lys, gan fynd allan gyda'i farchogion a'i gŵn hela.

Yn gynnar un gwanwyn, roedd Llywelyn Fawr mewn hwyliau arbennig o dda. Roedd bywyd wedi bod yn garedig wrtho y gaeaf hwnnw oherwydd ganwyd mab iddo ef a'i dywysoges. Gobeithiai Llywelyn y byddai'r bychan, rhyw ddydd, yn ei ddilyn fel tywysog ac yn gwarchod ei wlad. Penderfynodd Llywelyn ddod â'r teulu bach i'r llys hela yn Eryri i fwynhau'r gwanwyn cynnar yn y mynyddoedd.

"Erbyn nos fory, bydd gennym gig carw coch yn rhostio'n braf ar y tân yna ar gyfer y wled!" meddai Llywelyn. "Ble mae'r cŵn? Gadewch iddyn nhw ddod i mewn i'r neuadd!" Ar hynny, daeth y cŵn hela ceirw i mewn – cŵn tal gyda blewyn hir; cŵn cyflym, caled. Aeth rhai at y tân, a rhai at y milwyr, ond aeth un – dim ond un – at draed Llywelyn ei hun. Gelert oedd y ci hwnnw, ac roedd hi'n amlwg i bawb yn y llys bod y tywysog a Gelert yn ffrindiau mawr.

Ben bore drannoeth roedd y tywysog yn ei stafell wely. Doedd y dywysoges ddim yn teimlo'n dda ar ôl y daith flinedig y diwrnod cynt. Roedd y babi bach wedi cael ei fwydo ac yn ddigon bodlon, ond roedd hi'n amlwg i bawb fod yn rhaid i'r dywysoges gael gorffwys y bore hwnnw. "Mi awn ni â'r bychan



yn ei grud i lawr i'r stafell yng nghefn y neuadd," meddai Llywelyn wrth un o'r morynion, "er mwyn i'r dywysoges gael llonydd."

"Gelert, gorwedd fan yma 'ngwas i," meddai

Llywelyn wrtho. "Aros yma fydd dy waith di heddiw, ac edrych ar ôl y babi bach yn y crud. Aros! Gorwedd!"

Edrychodd y ci hela â'i lygaid brown ffyddlon ar ei feistr a phlygu i orwedd wrth y crud.

* * *

Yn sydyn, cododd Gelert ei ddwy glust. Beth oedd y sŵn dieithr yna oedd wedi tarfu arno? Erbyn hyn, roedd dau lygad Gelert yn agored led y pen ac roedd wedi codi ar ei eistedd. Gwrandawodd yn astud ac roedd ffroenau'i drwyn yn ceisio cael atebion o'r awyr. Pwy neu beth oedd yno? Trodd i edrych ar y babi yn ei grud: roedd hwnnw'n dal i gysgu'n dawel. Yr eiliad nesaf gwelodd Gelert y garthen oedd dros adwy'r drws yn symud. Clywodd y drws pren yn gwichian wrth iddo agor yn araf bach. Bellach roedd Gelert ar flaenau'i bawennau, ei wrychyn wedi codi a chwyrniad isel yn ddwfn yn ei wddw. Yn sydyn, neidiodd dwy res o ddannedd gwynion, miniog tuag ato o gyfeiriad y drws. Gwelodd Gelert weflau cochion a chôt flewog flêr, yn llwyd a du am y corff hir a thenau oedd yn dod amdano. Ond y peth mwyaf erchyll oedd y llygaid y tu ôl i'r dannedd: llygaid melyn creulon. Llygaid creadur oedd ar fin llwgu, ac yn fodlon ymladd hyd farwolaeth i gael pryd blasus o fwyd. Doedd gan Gelert ddim amser i feddwl. Symudodd yn chwim i'r ochr wrth i'r blaidd newynog lamu heibio iddo. Neidiodd Gelert yn ei ôl a llwyddo i blannu'i ddannedd yn ochr yr anifail rheibus wrth iddo'i basio. Hyrddiodd y blaidd i un ochr nes bod crud y babi'n siglo'n beryglus. Trodd y blaidd yn chwyrn a llamu'n ôl am y ci gwarchod. Wrth wneud hynny, trodd y crud drosodd a llithrodd y dillad gwely a'r babi bach yn un twmpath allan ohono. Ond ni ddefrodd y bychan.

Roedd hi'n chwrligwgan waedlyd yn awr. Plannodd y blaidd ei ddannedd ym mhawen flaen Gelert nes bod y ci druan yn gwichian mewn poen. Ond roedd Gelert yn ei dro wedi llwyddo i suddo ei ddannedd o dan glust y blaidd. Gwasgodd yn ddyfnach i'r blew llwyd a themlo am wddw'r anifail rheibus. Gwingai a gwthiai'r ddau ei gilydd, a'r un ohonynt yn fodlon gollwng. Cafodd y crud ergyd arall nes iddo ddisgyn dros ben y babi; deffrodd yntau gan ddechrau sgrechian crio.

Pan oedd Gelert yn sicr fod y blaidd wedi marw, gollyngodd ei afael. Trodd i roi ei holl sylw i'r babi bach, oedd bellach o'r golwg dan y crud. Cerddodd Gelert yn gloff ar draws y stafell gan wneud sŵn gwichian cysurlon drwy'i drwyn. Tawelodd y babi.


* * *

Agorodd Llywelyn y drws yn llydan a thynnu'r garthen yn ôl. Cerddai ci gwaedlyd ato yn ara deg, ond gan ysgwyd ei gynffon. Am eiliad, doedd y tywysog ddim yn adnabod ei gi ffyddlon. "Gelert!?" meddai mewn syndod. "Be gebyst?" Gwelodd Llywelyn y geg a'r fynwes waedlyd. Edrychodd o'i gwmpas yn wyllt. Gwelodd y crud ben-i-waered a'r dillad gwely'n chwalfa. Doedd dim golwg o'i fab yn unman. Beth oedd wedi digwydd i'r tywysog bach,

cannwyll llygad ei rieni? Ffrwydrodd llun o Gelert yn lladd ei fab drwy feddwl Llywelyn. Heb oedi i feddwl, cydiodd yn ei gleddyf a thrywanu Gelert drwy'i galon. Gan roi un edrychiad olaf llawn poen ar ei feistr, syrthiodd y ci dewr yn farw wrth ei draed. Yna, o rywle o dan y crud, daeth cri babi bach. Trodd Llywelyn ei ben yn wyllt i edrych. Beth oedd . . . ? Oedd yna obaith fod y bychan yn dal yn . . . ? Llamodd at y crud a'i godi. Gwelodd ei fab yn deffro o'i gwsg ar y pentwr dillad blêr. Roedd y babi'n adnabod wyneb ei dad ac yn gwenu'n hapus arno. Pam ei fod yn gwenu . . . ? Ond beth am y gwaed?

Cododd Llywelyn ei fab yn dyner, ac edrych yn ofalus arno. Doedd dim diferyn o waed nac ôl yr un dant yn agos ato.

Beth yn y byd oedd wedi digwydd? Pam fod gwaed ar geg Gelert? Sut y gallai fod wedi meddwl am eiliad fod y ci hela wedi ymosod ar y baban? Gan fagu ei fab yn ei freichiau, cerddodd Llywelyn yn ôl at y drws, at gorff Gelert. Gyda'r drws yn agored a haul olaf y prynhawn yn tywynnu i mewn i'r stafell, gallai weld llwybr o waed yn arwain i'r gornel bellaf. Beth oedd draw yn y fan acw? Wrth weld corff gwaedlyd y blaidd yn gorwedd yno, sylweddolodd Llywelyn beth oedd wedi digwydd mewn gwirionedd. "O, Gelert!" llefodd. "Achub bywyd fy mab wnest ti - a finnau'n meddwl dy fod wedi ei ladd!"



Siani'r Shetland

Anwen Francis

Cyrhaeddodd Beca a'i mam farchnad geffylau Llanybydder am ddeg o'r gloch yn y lorri fawr goch. Roedd yna bobl o bob math ym mhob twll a chornel – pobl yn gwerthu cŵn bach bywiog, a stondinau lliwgar yn gwerthu llyisiau a ffrwythau – ond doedd y rheiny ddim yn mynd â sylw Beca o gwbl. Dim ond y ceffylau oedd ar ei meddwl hi.

“Mae'n rhaid iti aros yn agos ata i yn y sièd fawr 'ma, Beca. Mae'r farchnad yn lle peryglus i oedolion, heb sôn am blant,” esboniodd Mrs Lewis.

“Ocê, Mam,” ochneidiodd Beca. “Fe fydda i'n ofalus, ond dere, cyn bod y ceffylau i gyd yn cael eu gwerthu.”

Gallai Beca glywed sŵn gweryru'r ceffylau o bell. Roedd yno ddynion a ffermwyr yn siarad ymhlith ei gilydd, eraill yn tynnu ac yn gwthio ceffylau, ac un dyn yn gweiddi, “Watch your backs . . . stallion coming through.”

Yn sydyn, cydiodd Mrs Lewis yn llaw Beca a'i thynnu tuag ati. Dyna pryd y clywodd Beca sŵn carnau'r ceffyl yn carlamu. Eiliadau'n ddiweddarach gwelodd goben Gymreig ifanc yn gwibio tuag atynt. Roedd ei ffroenau'n agor a chau'n ffyrnig a'i llygaid yn dangos yr ofn a deimlai yng nghanol holl halibalw'r farchnad. Roedd hi'n edrych yn wyllt a'i chynffon yn uchel yn yr awyr. Cafodd Beca fraw a chuddio'i phen yng nghôt ei mam.

Ar ôl i'r gaseg ifanc fynd heibio, aeth Beca a'i mam ymlaen i'r sièd fawr. Roedd dros gant o geffylau yno – rhai'n fach, eraill yn anferthol, rhai'n disgwyl ebolion ac eraill yn dew. Ond roedd rhai yn ofnadwy o denau hefyd.

“O Mam, edrych, mae rhai ohonyn nhw'n edrych mor ofnus. Maen nhw wedi dychryn. Trueni,” dywedodd Beca'n drist.

“Mae'r marchnadoedd ceffylau 'ma'n gallu

bod yn llefydd creulon iawn,” meddai ei mam. “Dere, awn ni i weld a oes 'na geffyl addas i ti.”

“Beth am honna?” dywedodd Beca gan bwyntio'i bys at gaseg lwyd oedd yn crynu mewn cornel. “Mae angen cartref da arni hi, on'd oes, Mam?”

“Nid honna yw'r un i ti, Beca. Bydd y ceffylau draw fanna'n cael eu gwerthu i farchnad gig y cyfandir, mae'n siŵr. Dere, awn ni am dro at y ceffylau bach – merlyn mynydd neu rywbeth tebyg i hynny fydd yn dy siwtio di,” esboniodd ei mam. “Caseg neu gel dawel sydd ei angen arnat, i ti gael sbort a sbri ond, yn bwysicaf oll, i fod yn ffrind da i ti.”

“O Mam, maen nhw i gyd mor annwyl,” meddai Beca. Rhedodd draw at y glwyd i gyfarch y ceffylau bach twt. Yno, roedd saith ceffyl yn syllu arni. Roedd rhai'n wyllt, yn aflonydd ac yn gweryru'n uchel, eraill yn dawel ac yn sefyll yn stond fel petaen nhw mewn sioc. Syllodd Beca'n ofalus ar bob un yn ei dro. Roedd hi'n ysu am fynd â phob un o'r cariadon blewog adref gyda hi i fferm Parc yr Ebol. Ond yn ei chalon, gwyddai mai dim ond un ohonynt y câi ddewis.

Grêt, meddylidodd Beca. O'r diwedd byddai ganddi geffyl ei hun i edrych ar ei ôl, i'w frwsio, i'w farchogaeth a'i faldodi i'r sêr.

“Licen i gael yr un brown 'na – hwnna fanna,” dywedodd Beca gan bwyntio'i bys ato.

“O Beca, mae hwnna'n geffyl rhy fawr o lawer i ti, ceffyl gwedd a rhyw gymysgwch yw e. Dere, beth am y gaseg fach ddu sydd draw fanna?” dywedodd ei mam. “Merlen o ynysoedd y Shetlands ger yr Alban yw honna.”

Doedd Beca ddim eisiau ceffyl du. Ceffyl brown yr oedd hi wedi'i ffansio, fel yr un yn y siop deganau. Ond fe benderfynodd ddilyn ei mam i'w gweld.

Yno, yn sefyll yn hamddenol ond yn gadarn

ar ei choesau bach blewog, roedd Shetland ddu. Roedd ei chynffon yn ymestyn hyd at y llawr a'i mwng wedi tyfu ymhell dros ei llygaid. Bron na allai weld o'i blaen.

"Helô," meddai perchennog y gaseg. "Y'ch chi'n chwilio am geffyl bach? Ewch i mewn ati i'w chyffwrdd, mae'n ddigon tawel ac yn hen gyfarwydd â chael plant o'i hamgylch," dywedodd y ffarmwr gan dynnu brws o'i boced a thacluso mwng y gaseg fach.

Aeth Beca yn ei blaen i agor y glwyd, a chamodd yn dawel iawn i mewn ati. Aeth draw at y Shetland, ac yn araf bach cododd ei llaw i'w chyffwrdd. Rhwbiodd wddf y gaseg yn ôl ac ymlaen, ac O, roedd y Shetland yn mwynhau'r sylw annisgwyl.

"Beth yw ei hoedran hi?" gofynnodd mam Beca i'r ffarmwr.

"Saith oed – ac mae hi'n gaseg fach gall iawn, yn gyfarwydd â sŵn tractor ar y fferm. Mae'n fodlon iawn teithio mewn lorri ond iddi gael digon i'w fwyta," chwarddodd y ffarmwr.

"Ti'n gwybod beth, Mam, hon yw'r un i fi," dywedodd Beca gan afael yn dynn am wddf y gaseg ddu, a honno'n gostwng ei phen yn addfwyn i dderbyn y maldod.

"Beth yw ei henw?" gofynnodd Beca i'r perchennog.

"Wel, mae hi wedi'i chofrestru gyda Chymdeithas y Shetlands yn yr Alban dan yr enw Morag Black Magic!" atebodd. "Ond does ganddi ddim enw Cymraeg . . . Wel, Shetland Fach y'n ni'n ei galw hi. Does neb gartre'n cymryd fawr o ddiddordeb ynddi erbyn hyn a dweud y gwir. Maen nhw'n rhy brysur gyda'u gwaith ysgol i boeni amdani rhagor. Dyna pam dwi'n ei gwerthu hi, chi'n gweld."

Meddylodd Beca yn galed am enw i'r Shetland. Daeth sawl syniad i'w phen – Black Beauty, Seren, Cêt, Cari a Sami. Serch hynny, nid oedd un o'r enwau'n addas iawn. Tra oedd Beca'n meddwl yn ddwys, gafaelodd y gaseg ddu yn ei sgarff â'i dannedd a'i thynnu i'r llawr yn ddireidus.

"W, caseg ddrwg wyt ti," chwarddodd Beca, gan wthio'i dwylo i ganol côt drwchus y gaseg. "Siani flewog fach wyt ti. Ie! Dwi'n gwybod beth i dy alw di nawr – Siani, Siani'r Shetland," dywedodd Beca. Gweryrodd y gaseg fel petai'n deall ac yn cytuno.





Rhodri



oed 10
 pen-blwydd Rhagfyr
 cartref tŷ fferm ar Fynydd Epynt
 teulu rhieni, brawd 13 a dwy
 chwaer, 7 a 4
 diddordebau criced, rygbi a chwaraeon,
 y trwmpea a chwarae ar y fferm

“Dw i mor hapus o gwmpas y fferm. Fy nghas beth i yw gorfod mynd ’nôl i’r ysgol ar ddiwedd y gwyliau.”

Rhodri



Mae Rhodri’n byw gyda’i deulu mewn hen ffermdy yng nghesail Mynydd Epynt yng nghanolbarth Cymru. Ei hen dad-cu oedd wedi prynu’r fferm flynyddoedd yn ôl, ac mae ei fam-gu’n dal i fyw yn yr ardal. O Malvern yn Swydd Gaerwrangon mae ei fam yn dod, ac mae hi’n dysgu Cymraeg. Mae pob un o’r plant yn siarad Cymraeg ac yn mynd i ysgol Gymraeg. Weithiau bydd Rhodri’n mynd i weld ei fam-gu a’i dad-cu yn Malvern. “Byddwn ni’n mynd â rhai o’r defaid i gae Tad-cu a Mam-gu yn y gwanwyn achos bod y borfa’n tyfu’n gynharach na fan hyn. Ry’n ni’n cael benthyg y trêler lawr yr heol i fynd â nhw. Mae pawb yn helpu’i gilydd ffordd hyn.”

Mae tad Rhodri yn gweithio i Lywodraeth Cymru ym maes bwyd, a’i fam yn helpu yn yr ysgol, yn cadw tŷ ac yn edrych ar ôl y fferm. Mae ei dad yn gwneud gwaith fferm hefyd ar benwythnos a phawb yn helpu amser wyna. “Fferm organig yw hi. ’Sdim pethau cemegol i ladd pryfed neu wella’r tir yn cael eu defnyddio yma o gwbl,” meddai Rhodri. “Mam sy’n trin yr ardd ac yn tyfu llysie fel tatws a moron. Dw i ddim yn hoffi garddio. Weithiau bydd defaid drwg yn bwyta’r ffa dringo ac wedyn mae Mam yn grac.”

“Poppy, Twm, Jess a Siani yw enwau’n cŵn ni,” meddai Rhodri. “Mae Poppy’n hen – yn henach na fi – ac mae wedi ymddeol erbyn hyn. Siani yw mam Twm a Jess, sy’n gweithio’n galed iawn gyda’r defaid. Mae yna ddwy gath, hefyd, Sid a Tigger. Nhw sy’n dal y llygod. Un ceffyl sydd yma. Mae pob un ohonon ni’n ei farchogaeth o gwmpas tir y fferm. Wel, pawb ond Dad, sy’n dal, ac mae’r ceffyl braidd yn fach.”

Anifeiliaid

Yn y bore, bydd Rhodri’n aml yn cael ei ddihuno gan gôr o leisiau anifeiliaid y fferm yn cystadlu â’i gilydd. Mae Da Duon Cymru’n gweiddi am frecwast yn y beudy gerllaw, a chant a mwy o ddefaid Beulah *Speckled-Faced* yn brefu o’r meysydd o gwmpas. Does yna ddim ‘cwac-cwac’ yn y bwrlwm, ond mae yna ddigon o glegar ieir a chyfarth cŵn.





Yr ysgol

Mae Rhodri, Gareth, Delyth a Megan yn mynd ar y bws ysgol bob dydd ar hyd heolydd cul a throellog cefn gwlad. Mae'n dipyn o siwrnai. Weithiau, yn y gaeaf, mae'n dywydd mawr ac mae'r bws yn methu â'u cyrraedd.

“Os bydd eira, ry'n ni'n gallu sledio ar y cae serth uwchben y fferm,” meddai Rhodri. “Dyna un o'm hoff bethau i. Mae bron cystal â diwrnod cynta'r gwyliau!”

Dim bo fi ddim yn hoffi'r ysgol, chwaith; dw i'n hoffi Cymraeg a maths, ac addysg gorfforol, 'nenwedig rygbi a chriced. A'r Eisteddfod. Ro'n i yn y grŵp llefaru aeth i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. A dw i'n hoffi dyddie pan fydd pobl yn dod i siarad â ni yn yr ysgol. Daeth Penri Roberts i helpu ni i ysgrifennu cerdd yn Gymraeg a daeth Jenny Sullivan i helpu ni i ysgrifennu stori am lun o ddraig yn hedfan a dyn ag arfau ganddo ar y llawr. Fe fydda i'n hoffi gwranddo ar bobl, yn lle siarad o hyd.”



✓Byd y bêl a'r trwmped

Mae Rhodri wrth ei fodd gyda chriced ac mae'n sownd wrth y teledu pan fydd tîmau Lloegr ac Awstralia'n cystadlu am yr 'Ashes'. Mae wedi bod ar faes criced Gerddi Soffia yng Nghaerdydd hefyd yn gwyllo gêm. “Dw i'n hapus iawn pan fydda i'n cael fy newis am dreialon,” meddai Rhodri. Erbyn hyn, mae'n chwarae criced i dîm Aberhonddu, a thîm canolbarth Cymru unwaith bob pythefnos, gan deithio i lefydd fel Llandrindod. “Mae cyri cyw iâr a chinio dydd Sul Mam yn cadw fi i fynd, er bod Mam yn dweud y dylswn i fwyta mwy o lysie.” Mae chwythu'r trwmped hefyd yn ymarfer da i'w ysgyfaint. Ym maes pêl-droed, mae'n cefnogi Aston Villa.

✓'Jio' gyda ffrindiau

Mae ffrindiau'n bwysig ym mywyd Rhodri. Er ei fod yn byw yn bell o bobman, mae ei gartref yn llawn o swm a miri. Bron bob amser ar benwythnos neu wyliau, mae ffrindiau'n dod i chwarae gydag ef a gyda'i frawd. Mae'r trampolin yn ffefryn mawr gan bawb.

“Pump ffrind sbesial sydd gen i,” meddai Rhodri. “Pan fydd un ohonyn nhw yma, fe fyddwn ni'n chwarae lan ar y top, ger y mynydd, yn adeiladu dinasoedd mas o gerrig, neu'n chwarae gêm o gardie fel *Spit* gyda Gareth fy mrawd.”



A wyddost ti?

• mai ystyr Epynt yw 'llwybr ceffylau'? Ac mai ffurf ar 'moel fryn' yw Malvern? Amser maith, maith yn ôl, roedd yr Hen Gymraeg yn cael ei siarad yn Swydd Gaerwrangon, sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Dros y canrifoedd, cafodd yr enw ei Seisnigeiddio. Efallai y gelli di feddwl am enwau llefydd eraill yng Nghymru sy'n dangos dylanwad y ddwy iaith. O beth mae enw dy gartref neu dy stryd di'n deillio, tybed?

• mai Da Duon Cymru oedd achos sefydlu trefn bancio gyntaf Cymru? O'r 15fed hyd y 18fed ganrif, byddai porthmyn yn 'allforio' gyroedd o wartheg a defaid i ffeiriau Lloegr, gan weiddi 'Haiptrw ho! Haiptrw ho!' i gadw'r praid ynghyd wrth fynd. Weithiau byddai lladron pen ffordd yn ymosod ar y porthmyn ar eu ffordd yn ôl i geisio dwyn yr arian mawr a gawsant am werthu'r anifeiliaid. Er mwyn cadw'r arian yn ddiogel, ym 1799 sefydlodd porthmon o'r enw David Jones Fanc yr Eidion Du yn Llanymddyfri. Cafodd y banc ei gymryd drosodd yn nes ymlaen gan fanc Lloyds TSB. Erbyn hyn, banc HSBC sydd yno.

• bod yna gystadleuaeth Snorclo Cors yn cael ei chynnal yn flynyddol yn nhre fach Llanwrtyd? Slawer dydd byddai pobl dost yn mynd yno i ymdrochi ac yfed dŵr iachus o'r ffynhonnau lleol, gan obeithio gwella o'u salwch. Nawr, maen nhw'n mynd yno i gael hwyll wrth blymio i dir mawnog Epynt.

✓Barbiciw a chyngerdd

Gerllaw cartref Rhodri, mae hen ysgol sydd wedi cael ei thro'i'n ganolfan i'r ardal. Pan fydd hi'n Wyl y Banc, bydd pobl yr ardal yn cynnal barbiciw neu chwaraeon yn y cae, a swper Cynhaeaf neu gyngerdd adeg y Nadolig. Mae Rhodri a'i deulu a'i ffrindiau'n mwynhau yno'n fawr.

“Mae cystal bron â'n gwyliau gwersylla ni yn Sir Benfro. Dw i'n cael dod â ffrind a ry'n ni'n mynd i'r traeth bob dydd i nofio ac adeiladu argaeau a chwilio am lysywod tywod – y rhai mae'r pâl yn eu byta – a chrancod. Grêt!”

Draig Goch Cymru

Myrddin ap Dafydd

Dyna i chi faner wych ydi'r ddraig goch! Mae gan y rhan fwyaf o wledydd y byd batrymau ar eu baneri – ond llysieuyn ac anifail chwedlonol sydd ar faner Cymru. Hon yw'r faner genedlaethol hynaf yn y byd.

Lliwiau'r genhinen yw'r gwyn a gwyrdd sydd arni. Hwn yw llysieuyn cenedlaethol y Cymry ers i filwyr Cymreig wisgo cennin ar eu dillad cyn ymladd yn erbyn byddin o Saeson amser maith yn ôl. Roedd hyn yn help mawr i'r Cymry adnabod ei gilydd yng nghanol y frwydr. Y Cymry enillodd y frwydr honno, a byth ers hynny rydym yn meddwl y byd o'r genhinen. Ar un adeg, gwyn a gwyrdd oedd lliwiau lifrai byddinoedd y Cymry hefyd.

Yr anifail chwedlonol ar y faner yw'r ddraig goch, wrth gwrs, a stori'r ddraig honno sydd yn y llyfr hwn. Rhowch y ddau lun at ei gilydd a dyna i chi goch, gwyn a gwyrdd y Cymry – y faner sy'n codi calon pob un ohonom, o sêr ein byd chwaraeon i'n beirdd a'n cerddorion.

Flynnydoedd lawer yn ôl, roedd yr Hen Gymry'n byw yn yr holl diroedd a elwir yn Lloegr a De'r Alban heddiw. Doedd y Saeson ddim yn bod yr adeg honno, a Hen Gymraeg oedd yr iaith roedd pawb yn ei siarad – yr holl ffordd o Gaeredin i Lundain!

Gwrtheyrn oedd un o frenhinoedd yr Hen Gymry, ac yn ystod ei oes ef bu raid iddo ymladd yn gyson yn erbyn byddinoedd oedd yn gwneud eu gorau glas i ddwyn ei dir. Yn y diwedd, gofynnodd Gwrtheyrn i griw o filwyr gwyllt o ogledd yr Almaen ei helpu. Hors a Hengist oedd enwau eu harweinwyr, ac roedd y ddau yma mor beryglus nes eu bod wedi cael eu hel allan o'u gwlad eu hunain.

Gyda'u help nhw, llwyddodd Gwrtheyrn i ddal ei afael ar ei wlad – ond beth allai e ei wneud â Hors a Hengist a'r haid wyllt honno o filwyr wedyn? Yn y diwedd, penderfynodd roi tir corsiog gwael yn neddwyrain Lloegr iddyn nhw yn dâl am eu help. Y nhw, felly, oedd y Sacsoniaid cyntaf, a Gwrtheyrn yw'r un sy'n cael y bai am fod y cyntaf i roi tir iddynt ar yr ynysoedd hyn.

Yn fuan iawn, doedd y Sacsoniaid ddim yn fodlon ar y tiroedd oedd ganddynt a dyma nhw'n dechrau llygadu rhagor o dir.

Gwahoddodd y Sacsoniaid y brenin Gwrtheyrn a thri chant o arweinwyr yr Hen Gymry i wledd yn un o'u neuaddau gwych. Aeth y Cymry yno yn eu dillad gorau, gan ddiolch am y croeso a gadael eu harfau tu allan i'r neuadd. Ar ganol y wledd, gwaeddodd un o'r Sacsoniaid, "Cydiwch yn eich sacsys!" Y 'sacs' oedd y gyllell hir roedd pob un o haid Hengist a Hors yn ei chario. Cydiodd y Sacsoniaid yn eu cyllyll ac ymosod yn gïaidd ar arweinwyr yr Hen Gymry. Lladdwyd y cyfan o'r tri chant o ddyinion dewr. Byth ers hynny, mae'r Cymry'n galw'r noson honno yn noson 'Brad y Cyllyll Hirion'.

Arbedwyd bywyd Gwrtheyrn – ond dim ond



oherwydd iddo gytuno i roi'r cyfan o diroedd de Lloegr i'r Sacsoniaid. Ar ben hynny, bu raid iddo adael ei gastell gwych a'r rhan fwyaf o'i gyfoeth, a ffoi am ei fywyd.

Ond i ble y gallai ddianc? Yn sicr, roedd am fynd cyn belled ag y gallai o dde Lloegr a'r haid beryglus oedd wedi setlo yno. Roedd arno eisiau teimlo'n ddiogel. Teithiodd am ddyddiau maith ac, yn y diwedd, cyrhaeddodd fynyddoedd Eryri yng ngogledd ein gwlad fach ni. Dechreuodd deimlo'n fwy cysurus wrth weld cadernid y creigiau o'i gwmpas.

Penderfynodd Gwrtheyrn y byddai'n hoffi byw yng nghanol y mynyddoedd. Gan ei fod yn frenin, roedd yn rhaid iddo godi castell iddo'i hun, wrth gwrs. Dewisodd fryn serth ger Beddgelert a galwodd ei bensaer a'i grefftwyr i ddechrau ar y gwaith adeiladu.

"Mae'n rhaid adeiladu castell cadarn," meddai wrthynt. "Ond yr un mor bwysig – mae'n rhaid ei godi'n gyflym gan nad oes gen i na fy nheulu unlle i fyw ynddo ar hyn o bryd. Rhoddaf wobwr hael i bob un ohonoch os bydd y gwaith wedi'i orffen cyn y gaeaf."

Aeth y gweithwyr ati fel lladd nadroedd. Erbyn diwedd y diwrnod cyntaf yn unig, roedd y waliau wedi'u codi at uchder go dda.

Fore trannoeth, fodd bynnag, cafodd y pensaer a'r gweithwyr fraw o weld fod holl waith y diwrnod cynt wedi'i chwalu'n yfflon. Roedd cerrig y waliau wedi disgyn a rhai ohonyn nhw wedi rowlio i lawr at droed y bryn.

"Mae hyn yn rhyfedd iawn," meddai'r pensaer. "Ond does dim amser i'w wastraffu – ewch ati i ailgodi'r waliau ar unwaith."

Bu'r gweithwyr wrthi'n ddyfal yn ailgodi'r waliau drwy'r diwrnod hwnnw. Erbyn machlud haul roedd y waliau'n uwch nag oeddent y diwrnod cynt hyd yn oed.

"Da iawn," meddai'r pensaer. "Mi gawn ni i gyd orffwyso'n dawel ein meddyliau heno." Ond y bore canlynol, roedd yr un peth wedi digwydd unwaith eto. Doedd yr un garreg ar ôl yn y waliau – roedd y cyfan wedi dymchwel.